

**Dull newydd o gyflawni adolygiadau perfformiad
ADRODDIAD AR EIN HYMGYNGHORIAD
Chwefror 2022**

**Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal
Cymdeithasol**

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Rydym yn goruchwyllo gwaith 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr.

Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer. Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau gwirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu'r sefydliadau sy'n bodloni ein safonau. I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir.

Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hyrwyddo diogelwch o ran mudoledd y gweithlu iechyd a gofal. Ein gwerthoedd sefydliad yw: cywirdeb, tryloywder, parch, tegwch a gwaith tîm. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwerthoedd yn ganolog i'n gwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

Adroddiad ar ein hymgyngoriad

Ymagwedd newydd i adolygiadau perfformiad

Cynnwys

| | |
|--|----|
| ► Crynodeb gweithredol | 3 |
| ► Pwy ymatebodd | 4 |
| ► Beth ddywedodd ymatebwyr wrthym a'n hymateb ni | 5 |
| ► Camau nesaf | 19 |
| ► Atodiad 1: Trefn adolygiadau'r rheolyddion yn ystod y cylch tair blynedd | 22 |

Crynodeb gweithredol

Y broses o adolygu perfformiad

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i adrodd i'r Senedd bob blwyddyn ynghylch pa mor dda y mae'r rheolyddion yr ydym yn eu goruchwyllo yn amddiffyn y cyhoedd.¹ Rydym yn cyflawni'r ddyletswydd hon trwy asesu perfformiad y rheolyddion hyn yn erbyn ein *Safonau Rheoleiddio Da*. Mae'r Safonau hyn yn nodi'r canlyniadau yr ydym yn disgwyl i reolyddion eu cyflawni. Rydym yn galw ein hasesiadau yn 'adolygiadau perfformiad' ac yn eu cynnal ar gylchred 12 mis treigl ar gyfer pob rheoleiddiwr.

Rydym wedi bod yn rhedeg ein proses gyfredol o adolygiadau perfformiad ers 2016, er i ni ddiweddarau ein *Safonau Rheoleiddio Da* ar ddiwedd 2019. Yn y pum mlynedd diwethaf, a gan fyfyrto ar adborth gan randdeiliaid, rydym wedi nodi nifer o feysydd y credwn y gellid eu gwella. Fe wnaethom benderfynu ei bod yn bryd edrych eto ar ein dull o adolygu perfformiad i sicrhau bod ein proses yn parhau i fod yn briodol yng ngoleuni'r Safonau newydd ac yn parhau i fod yn gymesur ac yn effeithiol. Rydym felly wedi bod yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid i geisio eu barnau ar y system a'n cynigion ar gyfer newid.

Yr ymgynghoriad a'r ymatebion

Dyma oedd ein hail ymgynghoriad ar y gwaith yma, ac fe'i cynhaliwyd o 26 Hydref 2021 hyd 21 Rhagfyr 2021. Fe gynhaliom [ymgynghoriad cynharach](#) ar ein dull cyffredinol o adolygiadau perfformiad, a helpodd ddatblygu ein syniadau a hysbysu'r cynigion hyn.

Yn yr ymgynghoriad hwn, ceisiwyd adborth gennym ar dri maes allweddol:

- ▶ Symud o broses flynyddol i un lle rydym yn edrych yn fanwl o bryd i'w gilydd, gyda monitro parhaus yn y cyfamser i gynnal ein trosolwg
- ▶ Ein cynigion ar gyfer gosod y cyfnod hwn fel cylch tair blynedd
- ▶ Y ffactorau rydym yn ystyried wrth benderfynu a oes angen i ni edrych yn fanylach ar berfformiad rheoleiddiwr.

Gofynnem 12 cwestiwn a chawsom 20 o ymatebion, gan gynnwys gan reolyddion yr ydym yn eu goruchwyllo, sefydliadau iechyd y llywodraeth, cyrff proffesiynol ac undebau, sefydliad addysg, cwmni cyfreithiol a'r cyhoedd.

Disgwylwn y bydd y cynigion hyn yn ein galluogi i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg o adolygu perfformiad yn fwy effeithiol.

¹ Mae paragraff 16 (1A)(b) o Ddeddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd, yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod baratoi adroddiad ar arfer ei swyddogaethau bob blwyddyn ariannol sy'n nodi 'i ba raddau, ym marn yr Awdurdod, mae pob corff rheoleiddio wedi cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodir arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles [defnyddwyr gofal iechyd, defnyddwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr, defnyddwyr gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn Lloegr ac aelodau eraill o'r cyhoedd]'.

Y camau nesaf

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyffredinol yn cefnogi ein cynigion. Roedd nifer fach yn anghytuno â rhai o'n cynigion neu wedi darparu ymatebion cymysg ac awgrymu ystyriaethau ychwanegol. Darparodd pob ymateb adborth gwerthfawr y byddwn yn ei ystyried wrth weithredu'r broses newydd.

Felly byddwn yn gweithredu'r dull adolygu perfformiad newydd arfaethedig.

Yn y broses newydd, byddwn yn cynnal 'adolygiad cyfnodol' o bob rheoleiddiwr bob tair blynedd. Dyma fydd ein cyfle i edrych yn fanwl ar bob agwedd ar waith y rheoleiddiwr. Rhwng yr adolygiadau hyn, byddwn yn monitro eu perfformiad, yn enwedig yng ngoleuni'r materion a nodir gennym yn yr adolygiadau cyfnodol, a gallwn, os bydd angen, ymgymryd â gwaith pellach neu ddwyn adolygiad cyfnodol ymlaen. Yn y blynyddoedd adolygu cyfnodol a monitro, byddwn yn cynnal ein hadolygiadau yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag aros tan ei diwedd. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud penderfyniadau a chyhoeddi adroddiadau yn gynt nag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd.

Byddwn yn cyflwyno'r broses newydd ar gyfer rownd 2021/22 o adolygiadau perfformiad. Rydym wedi ystyried ym mha drefn byddwn yn adolygu rheolyddion ac wedi ymgysylltu â'r rheolyddion i benderfynu ar drefn adolygiadau ar gyfer y cylch cyntaf. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf o dan y broses newydd ddechrau haf 2022.

Yn ein hadroddiad yn dilyn ein hymgyngghoriad cyntaf, gwnaethom ymrwymo i wneud y newidiadau a ganlyn:

- ▶ Diwygio ein prosesau er mwyn i ni wneud mwy o waith yn ystod y flwyddyn ac yn ymwneud yn fwy rheolaidd â rheolyddion, gyda'r nod o gyhoeddi ein hadroddiadau o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod yr ydym yn adrodd arno
- ▶ Ymgysylltu ag ystod ehangach o randdeiliaid
- ▶ Gwneud ein hadroddiadau yn gliriach, yn fwy cryno ac yn fwy defnyddiol wrth hyrwyddo gwelliannau mewn rheoleiddio
- ▶ Datblygu ein dealltwriaeth o risg gan gynnwys risgiau penodol i broffesiwn a defnyddio hyn i lywio cwrpas ein hadolygiadau.

Rydym eisoes wedi dechrau gweithio i roi'r ymrwymadau hyn ar waith.

Pwy ymatebodd?

Lansiwyd ein hymgyngghoriad ar 26 Hydref 2021 a pharhaodd tan 21 Rhagfyr 2021. Gofynnwyd 12 cwestiwn a chawsom 20 ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys gan reolyddion yr ydym yn eu goruchwylio, sefydliadau iechyd y llywodraeth, aelodau o'r cyhoedd, rhai sydd wedi cofrestru, cyrff proffesiynol/undebau llafur a sefydliad addysg a chwmni cyfreithiol. Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion fel a ganlyn:

- ▶ Rheolyddion – naw ymateb
- ▶ Cyrff proffesiynol/undebau llafur – pump ymateb

- ▶ Dau sefydliad iechyd y llywodraeth
- ▶ Dau unigolyn
- ▶ Un sefydliad addysg
- ▶ Un cwmni cyfreithiol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliom drafodaeth bord gron ar gyfer rhanddeiliaid a fynychwyd gan gyrff proffesiynol a sefydliadau iechyd y llywodraeth. Er na chyflwynodd pawb a oedd yn bresennol ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad, roedd pwyntiau allweddol o'r trafodaethau'n bwydo i mewn i ddadansoddiad cyffredinol yr ymgynghoriad.


Beth ddywedodd ymatebwyr wrthym

1. Rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r dull gweithredu arfaethedig [Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno gyda'n tybiaethau?]

Ymatebion i ymgynghoriadau

- 1.1 Yn y ddogfen ymgynghori, fe wnaethom grynhoi nifer o ragdybiaethau y buom yn gweithio iddynt wrth ddatblygu ein hymagwedd arfaethedig at adolygiadau perfformiad. Y rhain oedd:
 - Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd tra'n gwneud ein hadolygiadau perfformiad yn fwy cymesur
 - Mae ein hadolygiadau perfformiad wedi eu cynllunio i roi sicrwydd digonol, yn hytrach na llwyr, am reoleiddiwr
 - Rydym yn derbyn lefel benodol o risg yn ein trosolwg. Mae lleihau amllder ein hadolygiadau yn cynyddu'r risg y bydd ein gwybodaeth am reoleiddiwr yn lleihau. Bydd y risg hon yn cael ei gwrthbwyso gan broses fonitro rhwng adolygiadau, ynghyd â gwella ein sylfaen dystiolaeth, er enghraifft trwy fwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid
 - Mae adolygiadau cyfnodol a monitro yn annatod – po fwyaf y gwyddom o un, y lleiaf y dylem fod angen ei gasglu yn y llall
 - Dylai'r cylch cyffredinol o adolygiadau fod yn llai beichus ar reolyddion na'r hyn sy'n cyfateb ar hyn o bryd. Gall ein hymagwedd seiliedig ar risg olygu bod rhai rheolyddion yn cael mwy o sylw nag eraill. Dylem allu rhyddhau capasiti tuag at waith ehangach i wella rheoleiddio.
- 1.2 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhagdybiaethau, gyda llawer yn rhoi sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r rhain. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno, ond roedd rhai yn awgrymu rhagdybiaethau ychwanegol neu'n cynghori bod yn ofalus ynghylch y rhai a ddarparwyd.
- 1.3 Roedd yr ymatebwyr yn glir yn eu cefnogaeth i broses fwy cymesur sy'n cadw ei ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylai diogelu'r cyhoedd bob amser gael blaenoriaeth dros unrhyw faich canfyddedig ar y rheoleiddiwr.

- 1.4 Dadleuodd rhai ymatebwyr na ddylem ddyblygu'r trosolwg a ddarperir gan Gynghorau a Byrddau rheolyddion. Roedd rhai'n croesawu'r gydnabyddiaeth bod adolygiadau perfformiad yn rhoi sicrwydd digonol yn hytrach na sicrwydd llwyr. Gofynnodd un ymatebwr i ba raddau y mae hyn yn dibynnu ar reolyddion yn cael eu prosesau sicrwydd eu hunain, sy'n debygol o amrywio. Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am eglurder ynghylch sut y bydd y rhagdybiaethau'n cael eu rhoi ar waith.



Ein hymateb

- 1.5 Rydym yn glir y byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd tra'n gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein prosesau'n gymesur. Bydd ein prosesau yn parhau i anelu at roi sicrwydd digonol yn hytrach na sicrwydd llwyr.
- 1.6 Nid yw ein prosesau wedi'u cynllunio i ddyblygu'r oruchwyliaeth o Gynghorau neu Fyrddau rheolyddion. Gallwn gael sicrwydd bod gan reolyddion eu prosesau sicrwydd cadarn eu hunain. Er enghraifft, pan fydd adroddiadau archwilio mewnol rheolyddion ar gael i ni, gall hyn roi digon o sicrwydd i ni am faes penodol fel nad oes angen i ni wneud rhagor o waith ein hunain. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r hawl i gynnal ein harchwiliadau ein hunain yn y meysydd hyn.
- 1.7 Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r rhagdybiaethau hyn fel yr egwyddorion y byddwn yn gweithio yn unol â nhw wrth ddatblygu a chyflwyno ein prosesau manwl.


2. Amlinellu ein hymagwedd arfaethedig at adolygiadau cyfnodol [Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer adolygiadau cyfnodol? A oes meysydd y dylid edrych arnynt yn rhan o bob adolygiad cyfnodol?]

Ymatebion i ymgynghoriadau

- 2.1 Amlinellwyd sut yr ydym yn bwriadu cynnal adolygiadau cyfnodol yn ein proses adolygu perfformiad newydd yn y ddogfen ymgynghori. Fe wnaethom nodi'r wybodaeth y byddwn yn ei chasglu drwy'r broses hon a darparu llinell amser enghreifftiol o bryd y byddwn yn gwneud hynny mewn cyfnod o 12 mis.
- 2.2 Adolygiadau cyfnodol fydd ein cyfle rheolaidd i edrych yn fanwl ar reoleiddiwr. Er y bydd y cwmpas yn cael ei bennu'n unigol ar gyfer pob adolygiad, bydd adolygiad cyfnodol yn fwy dwys na'r rhai a gynhelir gennym yn y blynyddoedd 'monitro' yn y cyfamser.
- 2.3 Roeddem yn bwriadu cynnal mwy o waith dadansoddi yn ystod y flwyddyn a sefydlu cyswllt rheolaidd â'r holl reolyddion, gan ganiatáu i ni edrych ar berfformiad yn ystod y flwyddyn a mynd i'r afael â materion wrth iddynt godi.

Roedd un ymatebwr o'r farn bod hyn yn awgrymu y byddai angen i reolyddion newid eu hymagwedd yn seiliedig ar gais gan yr Awdurdod.

2.4 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig, ac nid oedd yr un yn anghytuno. Nododd un y dylai'r dull hwn ganiatáu ffocws ar reolyddion nad ydynt yn bodloni'r holl Safonau, tra'n sicrhau bod digon o oruchwyliaeth o'r meysydd sy'n hanfodol i ddiogelwch cleifion ar gyfer y rheini sy'n bodloni'r holl Safonau.



2.5 Mynegodd ymatebwyr farn anghyson ynghylch faint o waith y rheolyddion y dylem edrych arno mewn adolygiadau cyfnodol. Dadleuodd rhai ymatebwyr y dylai cwmpas ein hadolygiadau gael ei arwain gan gudd-wybodaeth a chael ei gyfyngu i'r meysydd hynny lle roedd tystiolaeth yn awgrymu y gallai fod problem. Roedd eraill o'r farn y dylid ymdrin â rhai meysydd penodol, megis addasrwydd i ymarfer, ym mhob adolygiad cyfnodol, neu y dylid adolygu pob agwedd ar berfformiad yn ystod pob cylch tair blynedd. Dadleuodd un ymatebwr y byddai'n tanseilio'r broses ac yn creu risg o fethu â gweld materion pe na bai adolygiad cyfnodol yn edrych ar bob agwedd ar berfformiad.

Ein hymateb

2.6 Rydym yn cydnabod y rhesymau pam fod rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylem adolygu pob agwedd ar reoleiddiwr yn fanwl ym mhob adolygiad cyfnodol. Fodd bynnag, rydym yn haeru y dylai ein holl brosesau fod yn seiliedig ar risg. Un ystyriaeth i ni yw'r risg y bydd perfformiad yn newid dros amser, a all fod yn gyflymach mewn rhai meysydd (er enghraifft addasrwydd i ymarfer) nag eraill (efallai na fydd unrhyw newidiadau i safonau craidd rheoleiddiwr mewn cyfnod o dair blynedd er enghraifft). Byddwn yn pennu cwmpas pob adolygiad cyfnodol yn unigol, gan ganolbwyntio ar feysydd risg allweddol a nodwyd trwy ein sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys adborth gan randdeiliaid. Nid ydym yn ystyried ei bod yn gymesur edrych yn fanwl ar bob agwedd ar berfformiad rheoleiddiwr ym mhob adolygiad cyfnodol, oni bai bod y risgiau a nodwyd yn awgrymu bod hyn yn angenrheidiol.

2.7 Bydd cyswllt rheolaidd â rheolyddion yn ein galluogi i gael mwy o wybodaeth am berfformiad a meysydd o bryder, fel y gallwn sicrhau ein hunain bod rheolyddion yn ymwybodol o risgiau a nodwyd ac yn eu lliniaru.

2.8 Mae'r pryderon ynghylch ein deialog arfaethedig gyda rheolyddion yn awgrymu rhywfaint o gamddealltwriaeth o'n cynigion. Ein nod yw defnyddio'r broses fel ffordd o godi materion gyda rheolyddion yn gynnwys fel y gallwn gael safbwynt y rheoleiddiwr ac, os yw'n briodol, rhoi cyfle i'r rheoleiddiwr fynd i'r afael â'r mater cyn gynted â phosibl. Gallai codi materion ar ddiwedd y cyfnod adolygu perfformiad achosi oedi i'r rheoleiddiwr fynd i'r afael â'r rhain neu roi


sicrwydd i ni ei fod yn ymwybodol o unrhyw risg ac yn ei reoli. Ni fydd yn ofynnol i reoleiddiwr newid ei ddull gweithredu oherwydd i ni godi'r mater yn ystod y flwyddyn yn unig.

3. Nodi'r dystiolaeth y byddwn yn edrych arni yn ein hadolygiadau [Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu bod y meysydd y byddwn yn edrych arnynt i fod yn sail i'n sylfaen tystiolaeth yn briodol? A oes yna unrhyw feysydd y dylem eu harchwilio i wella'r dystiolaeth a gesglir gennym?]

Ymatebion i ymgynghoriadau

- 3.1 Cynigiom barhau i ddefnyddio ein ffynonellau tystiolaeth cyfredol,² a gwella hyn gyda mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyswllt rheolaidd â'r holl reolyddion a phrosesau archwilio wedi'u diweddarau.
- 3.2 Drwy ehangu ein proses archwilio o adolygu achosion yn unig i ystyried ffynonellau tystiolaeth ychwanegol, disgwylw'n gael dealltwriaeth fwy cyflawn o sut mae prosesau'r rheolyddion yn gweithio. Er bod cefnogaeth i ehangu ein hymagwedd at archwilio, gan gynnwys ystyried meysydd heblaw addasrwydd i ymarfer, mynegwyd rhybudd o ran y posibilrwydd y gallai hyn gynyddu baich y broses. Nododd rhai rheolyddion y bydd angen mewnbwn a chymorth cyrff eraill ar gyfer gwaith archwilio ehangach, er enghraifft arsylwi ymweliadau sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant. Amlygwyd y bydd angen i'r Awdurdod ddarparu eglurder a sicrwydd ynghylch pwrpas y gweithgareddau hyn.

- 3.3 Yn y ddogfen ymgynghori, fe wnaethom nodi y gallai newid 'sylweddol' i broses olygu y bydd angen inni edrych yn fanylach ar effaith y newid ar y broses honno, a allai gynnwys archwiliad. Gofynnodd yr ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch yr hyn a fyddai'n newid 'sylweddol' gan arwain at fwy o graffu. Nododd dau ymatebwr, os yw rheoleiddiwr wedi dangos ei fod wedi cyflwyno newid gyda threfniadau llywodraethu a rheolaethau cadarn ar waith, na ddylai hyn ynddo'i hun fod angen adolygiad pellach.



Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- 3.4 Bydd gwella'r ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn gofyn i ni ehangu'r ystod o unigolion a sefydliadau yr ydym yn ceisio adborth ganddynt, targedu'r wybodaeth a geisiwn yn well, a'i gwneud yn haws iddynt ddarparu gwybodaeth i ni.

² Arsylwi ac adolygu papur gan y Cyngor; gwirio cofrestr; adolygu cyhoeddiadau; canlyniadau A29 a phwyntiau dysgu; adolygiad pryderon; adolygiad set data.

- 3.5 Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi ein bwriad i gael mwy o adborth gan randdeiliaid. Cododd rhai bryderon y dylem eu hystyried mewn perthynas ag adborth o'r fath:
- Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn fwy llafar nag eraill felly bydd angen i ni bwysu a mesur gwahanol ffynonellau adborth
 - Dylem fod yn ofalus i aros yn annibynnol a pheidio â dod yn eiriolwyr ar gyfer rhanddeiliaid
 - Efallai na fydd adborth gan randdeiliaid yn darparu manylion llawn am fater ac efallai y bydd angen mwy o dystiolaeth cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud
 - Mae angen i ni fod yn ymwybodol nad ydym yn gorff sy'n ymdrin â chwynion ac nad ydym am awgrymu i randdeiliaid ein bod
 - Dylem ei gwneud yn glir y byddwn yn ystyried pryderon pryd bynnag y bydd rhanddeiliaid yn eu codi, nid dim ond fel rhan o adolygiad cyfnodol. Mewn blynyddoedd monitro, bydd adborth rhanddeiliaid yn arbennig o bwysig a gallai ein helpu i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Ein hymateb

- 3.6 Mae gwella ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn elfen allweddol o'n hymagwedd newydd a byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio ymgysylltu o'r fath ac yn agored i unrhyw un sy'n dymuno rhoi adborth i ni unrhyw bryd. Rydym yn deall y gofal sydd gan rai ymatebwyr o ran sut rydym yn ceisio ac yn defnyddio gwybodaeth.
- 3.7 Rydym yn cytuno nad ydym yn gorff eirioli nac yn gorff sy'n ymdrin â chwynion. Byddwn yn asesu'r wybodaeth a gawn yn ofalus ac yn sicrhau bod y rheoleiddiwr yn cael cyfle i wneud sylwadau ar wybodaeth sy'n awgrymu y gallai fod pryder. Byddwn yn glir i randdeiliaid ynghylch cwmpas ein rôl a'r hyn y gallwn ac na allwn ei wneud â'u tystiolaeth.
- 3.8 Y cwestiynau allweddol wrth sefydlu a yw newidiadau i broses rheoleiddiwr yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal adolygiad o'r broses honno, fydd yr effaith debygol ar ddiogelu'r cyhoedd a sut y gellir asesu'r effaith honno. Bydd hyn yn amrywio yn ôl natur y newid. Os gall rheoleiddiwr ddangos proses gadarn i fonitro effaith y newid, byddwn yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu a oes angen i ni gynnal adolygiad ein hunain.

4. **Amlinellu sut y byddwn yn monitro perfformiad y tu allan i adolygiadau cyfnodol [Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig i fonitro perfformiad yn y blynyddoedd rhwng adolygiadau cyfnodol?]**


Ymatebion i ymgynghoriadau

- 4.1 Gofynnwyd am adborth ar ein dull o fonitro adolygiadau, a fydd yn digwydd yn y blynyddoedd rhwng adolygiadau cyfnodol rheoleiddiwr. Dywedasom y byddem yn edrych ar wybodaeth debyg ag ar gyfer adolygiadau cyfnodol, er mwyn rhoi darlun digonol i ni o berfformiad rheoleiddiwr, nodi risgiau ac

adrodd i'r Senedd. Disgwylwn y byddai adolygiad monitro yn llai dwys nag adolygiad cyfnodol.

4.2 Byddai'r broses yn cynnwys monitro Safonau nas cyrhaeddwyd, pryderon am berfformiad a newidiadau mawr. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig.

4.3 Fel gyda newidiadau sylweddol a amlinellwyd o dan adolygiadau cyfnodol, gofynnodd ymatebwyr am eglurder ynghylch yr hyn a fyddai'n golygu newid 'mawr' a fyddai'n sbarduno adolygiad pellach mewn blwyddyn fonitro. Amlygodd rhai hefyd y bydd angen i ni fod yn glir ynghylch y rhesymau dros yr holl adolygiadau pellach a gynhelir mewn blwyddyn fonitro. Bydd yn allweddol sicrhau nad yw'r broses yn gosod baich adnoddau anghymesur o uchel.



4.4 Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai adroddiadau monitro fod yn glir ynghylch y dystiolaeth a ystyriwyd a bod yn ddefnyddiol i reolyddion a rhanddeiliaid ehangach.

4.5 Dywedodd un ymatebwr nad oedd y dull a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n ddigonol ar risgiau sy'n dod i'r amlwg a sut mae'r rheolyddion yn monitro ac yn lliniaru'r rhain.

Ein hymateb

4.6 Yn yr un modd ag adolygiadau cyfnodol, bydd yr amgylchiadau a fydd yn ysgogi adolygiad manwl o newid proses yn amrywio. Byddwn yn ystyried i ba raddau y bydd y newid yn effeithio ar ddiogelu'r cyhoedd, prosesau'r rheoleiddiwr ar gyfer monitro ei weithrediad a'i effaith, adborth gan rhanddeiliaid a'r amser cyn yr adolygiad cyfnodol nesaf. Byddwn yn cyfathrebu â rheolyddion i egluro'n glir gwmpas adolygiad monitro, gan gynnwys meysydd i'w hadolygu ymhellach.

4.7 Byddwn yn glir yn ein hadroddiadau monitro am y dystiolaeth yr ydym wedi'i hystyried a'r meysydd yr ydym wedi edrych arnynt yn fanwl. Mae'r adroddiadau hyn yn debygol o fod yn fwy cryno na'n hadroddiadau adolygu perfformiad blynyddol cyfredol ac adroddiadau adolygu cyfnodol yn y dyfodol.

5. **Sut y gwnaethom ystyried hyd y cylch adolygu [Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu ein bod wedi nodi'r ffactorau cywir i'w hystyried wrth bennu hyd y cylch adolygu?]**

Ymatebion i'r ymgynghoriad


5.1 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno ein bod wedi nodi'r ffactorau cywir yn y maes hwn. Roeddem yn disgwyl ei bod yn debygol y byddai angen i adolygiadau monitro fod yn fwy manwl po hiraf y cyfnod rhwng adolygiadau

cyfnodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i oruchwylio'n effeithiol. Roedd hyder rhanddeiliaid yn y broses yn ystyriaeth allweddol yn hyd y cylch.

- 5.2 Nid oedd un ymatebwr yn cytuno y byddai gwaith mewn blynyddoedd monitro yn fwy mewn cylch hwy, ac/neu y byddai'r Awdurdod yn gwybod llai am reoleiddiwr yn y sefyllfa hon. Roedd ymatebwr arall yn cytuno â'r ffactorau ac ychwanegodd y dylid ystyried unrhyw bryderon gan rhanddeiliaid.

Ein hymateb

- 5.3 Dylai ein prosesau monitro ein galluogi i gynnal arolygiaeth effeithiol o'r rheolyddion rhwng adolygiadau cyfnodol. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn canolbwyntio ar feysydd risg allweddol a phrif ddata. Ni fydd o reidrwydd yn canolbwyntio ar bob maes o waith rheoleiddiwr a gall olygu efallai na fydd rhai meysydd o berfformiad sy'n dirywio yn cael eu canfod. Rydym o'r farn bod cylch tair blynedd yn debygol o leihau'r risgiau y bydd hyn yn effeithio ar ddiogelu'r cyhoedd.
- 5.4 Byddwn yn ystyried pryderon rhanddeiliaid am berfformiad fel rhan o'n hasesiad risg cyffredinol i bennu lle mae rheoleiddiwr yn eistedd yn y cylchred. Os byddwn, yn ystod y cylch cyntaf o adolygiadau, yn cael gwybodaeth gan rhanddeiliaid sy'n nodi bod cyfiawnhad dros newid hyd y cylch, byddwn yn ystyried hyn.




6. Cynnig cylch tair blynedd [Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y byddai cylch tair blynedd yn briodol?]

Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 6.1 Roeddem yn dadlau y bydd cylch tair blynedd yn caniatáu inni barhau i oruchwylio'r rheolyddion yn effeithiol tra'n lleihau'r baich goruchwylio. Gwnaethom ymrwymo i barhau i adolygu hyd y cylch.

6.2 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod cylch tair blynedd yn briodol. Dim ond tri oedd yn anghytuno: roedd yn well gan un ymatebwr gylch dwy flynedd gan y byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd ac yn lleihau'r risg o golli mater sy'n dod i'r amlwg; roedd un yn ffafrio proses flynyddol ac yn pryderu y byddai cylch hirach yn effeithio ar brydlondeb ac effeithiolrwydd argymhellion lle na chaiff Safon ei bodloni neu lle mae perfformiad wedi dirywio; ac roedd yn well gan un ei fod yn bum mlynedd.



6.3 Cytunodd yr ymatebwyr fod cylch tair blynedd yn sicrhau cydbwysedd da, gan roi digon o sicrwydd i randdeiliaid allanol a Chynghorau a Byrddau rheolyddion. Roedd rhai yn dadlau y byddai unrhyw beth y tu hwnt i dair blynedd yn creu perygl o danseilio arolygiaeth yr Awdurdod.

Ein hymateb

6.4 Cawsom gefnogaeth gyffredinol ar gyfer cylch tair blynedd a byddwn yn mabwysiadu'r dull hwn. Byddwn yn parhau i adolygu hyd y cylch er mwyn sicrhau ei fod yn darparu trosolwg cymesur sy'n ddigonol ar gyfer diogelu'r cyhoedd.

7. Pennu cwmpas adolygiadau cyfnodol [Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno mai dyma'r ffactorau cywir i ni ystyried wrth benderfynu ar y meysydd i 'w hystyried yn ystod adolygiadau cyfnodol? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?]

Ymatebion i'r ymgynghoriad


7.1 Cynigiom ystyried y meysydd canlynol wrth benderfynu ar gwmpas adolygiadau cyfnodol:

- Faint o amser sydd ers i'r swyddogaeth reoleiddio gael ei hadolygu mewn manylder
- Unrhyw fylchau yn ein dealltwriaeth o sut mae rheoleiddiwr yn perfformio
- Canlyniadau adolygiadau perfformiad blaenorol
- Gwybodaeth sy'n nodi pryder arwyddocaol a allai effeithio ar berfformiad yn erbyn safon neu gyfateb i risg i ddiogelu'r cyhoedd
- Newid arwyddocaol i broses sy'n lleihau ein dealltwriaeth o'r broses honno'n arwyddocaol

- Risgiau newydd neu arwyddocaol yn codi o ymarfer neu amgylchedd iechyd a gofal y cofrestryddion, yn arbennig ble na ymddengys bod y rhain yn cael sylw
- Pryderon arwyddocaol eraill a allai effeithio ar ddiogelu'r cyhoedd.

7.2 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r ffactorau, gyda llawer yn rhoi sylwadau pellach ar feysydd penodol.

7.3 Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen am eglurder a thryloywder yn y broses gwneud penderfyniadau pan ddefnyddir y ffactorau hyn. Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am eglurder ynghylch yr hyn fyddai'n cynrychioli newid 'sylweddol' mewn ymarfer, a rhybuddiodd un am y potensial i atal newid os yw hyn yn cael ei ystyried yn ffactor risg.



7.4 Roedd dau ymatebwr yn anghytuno bod yr amser a dreuliwyd ers i ni adolygu swyddogaeth yn fanwl ar ei ben ei hun yn flaenorol yn ffactor priodol – gan ddadlau y dylai fod yna resymeg yn ogystal â threigl amser yn unig, yn enwedig os oedd ymgysylltu amlach yn gweithio'n dda. Nodwyd bod y ffactorau yn gymharol eang ac, os na chânt eu defnyddio'n gywir, gallent arwain at swm anghymesur o waith pellach.

7.5 Tynnodd dau ymatebwr sylw penodol at yr wybodaeth a gafwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid fel ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ar gwmpas yr adolygiad.

7.6 Anghytunodd un ymatebwr â'r ffactorau, gan ddweud yr hoffai gael fframwaith llawer cryfach ar gyfer gwneud penderfyniadau yn gyffredinol, yn gysylltiedig â dyletswydd yr Awdurdod,¹ a dealltwriaeth gytûn o risg sy'n ymwneud â swyddogaethau'r rheoleiddiwr a'r risgiau sy'n codi o ymarfer cofrestryddion.

Ein hymateb

7.7 Bydd y ffactorau a nodir uchod yn cael eu hystyried yng ngoleuni'r risgiau i ddiogelu'r cyhoedd a'r angen i fod yn gymesur. Bydd pwysau ffactorau unigol yn amrywio yn ôl amgylchiadau pob achos. Rydym yn cytuno efallai nad yw'r amser ers i ni adolygu swyddogaeth yn fanwl yn flaenorol, ynddo'i hun, yn ddigon o reswm dros gynnal adolygiad pellach. Byddwn yn asesu hyn ar y cyd â meysydd eraill wrth benderfynu a oes angen inni edrych yn fanylach ar faes penodol.

7.8 Rydym hefyd yn cytuno bod gwybodaeth o adborth rhanddeiliaid yn bwysig, a byddwn yn cynnwys hyn mewn perthynas â'r holl ffactorau fel y bo'n briodol.

7.9 Ni chawsom ein darbwylllo gan yr awgrym y gallai ofn adolygiad gan yr Awdurdod fod yn rhwystr i newid. Mae'r Awdurdod bob amser wedi gallu adolygu prosesau pan fo newidiadau wedi digwydd, ac nid yw hyn wedi atal

rheolyddion rhag gwneud newidiadau o'r fath. Byddem yn ymgysylltu â rheoleiddiwr pe bai ganddo bryderon am yr effaith ar ei berfformiad o weithredu newid.

- 7.10 Rydym o'r farn bod y Safonau Rheoleiddio Da yn darparu fframwaith hyblyg priodol i ni allu cyflawni ein dyletswydd i adrodd ar berfformiad rheolyddion. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig deall y risgiau, a byddwn yn adeiladu hyn yn ein gwaith.

8. Pennu cwrpas adolygiadau monitro [Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno mai dyma'r ffactorau cywir i ni ystyried wrth benderfynu bod angen edrych yn fanylach ar feysydd penodol tu allan i'r adolygiadau cyfnodol? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?]


Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 8.1 Yn yr un modd ag adolygiadau cyfnodol, darparwyd set o ffactorau y gwnaethom gynnig eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cynnal adolygiad pellach yn ystod blynyddoedd monitro:
- Canlyniad adolygiadau blaenorol, yn cynnwys Safonau heb eu bodloni sy'n galw am fonitro
 - Gwybodaeth sy'n nodi problem arwyddocaol gyda phroses rheoleiddiwr a allai effeithio ar ddiogelu'r cyhoedd neu berfformiad yn erbyn Safon
 - Newid mawr i broses nad ydym wedi cael cyfle i'w hadolygu ac a allai effeithio ar ddiogelu'r cyhoedd neu berfformiad yn erbyn Safon
 - Cais gan reoleiddiwr i adolygu Safon nad yw wedi ei chyflawni ar hyn o bryd i bennu a yw bellach wedi ei chyflawni
 - Pryderon eraill sy'n awgrymu risg i ddiogelu'r cyhoedd neu nad yw Safon wedi ei bodloni.

- 8.2 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r ffactorau a nodwyd gennym ar gyfer adolygiadau monitro. O ran y ffactorau mewn perthynas ag adolygiadau cyfnodol, amlygwyd yr angen am eglurder a thryloywder.

- 8.3 Roedd nifer yn dadlau na ddylai'r Awdurdod, neu dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, wrthod adolygu Safon heb ei bodloni lle roedd rheoleiddiwr wedi gofyn am hynny – er enghraifft oherwydd bod y rheoleiddiwr yn teimlo y byddai'n gallu dangos gwelliant i'r graddau ei fod bellach yn bodloni Safonol.

Nododd un ymatebwr ei bod yn bosibl na fydd angen adolygu Safonau nas



cyrhaeddwyd bob blwyddyn os yw'n amlwg y byddant yn parhau heb eu bodloni. Roedd yr ymatebydd yn bryderus y gallai gwneud hynny dynnu adnoddau o'r gwaith i gwrdd â'r Safon.

- 8.4 Roedd dau ymatebwr yn anghytuno. Pwysleisiodd un y risg o beidio â chymell newid, gan herio'r syniad bod newid yn cael ei ystyried yn risg ond nad yw methu â newid yn cael ei ystyried. Roedd y llall yn dadlau bod pob ffactor braidd yn amwys. Roeddent am gael rhagor o eglurder ynghylch y dystiolaeth sydd ei hangen i sbarduno adolygiad pellach, gan bwysleisio'r angen am eglurder a phenderfyniadau cadarn wrth bennu'r angen i edrych yn fanwl yn ystod blwyddyn fonitro.

Ein hymateb

- 8.5 Fel y nodwyd uchod, bydd gan y ffactorau gwahanol bwysau gwahanol mewn amgylchiadau gwahanol a byddwn yn ystyried yr angen i ddiogelu'r cyhoedd a chymesuredde wrth eu defnyddio.
- 8.6 Rydym yn cytuno y dylem fel arfer adolygu Safon nas bodlonir pan ofynnir i ni wneud hynny gan reoleiddiwr. Byddem yn disgwyl i reoleiddiwr allu darparu tystiolaeth am y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd Safon pan fydd yn gofyn am ein hadolygiad.
- 8.7 Fel yr awgrymwyd uchod, nid ydym yn cydymdeimlo â'r farn y byddai defnyddio newidiadau mewn prosesau fel rheswm dros wneud gwaith ychwanegol rhwng cylchoedd llawn yn 'anghymell' newid. Byddem yn bryderus iawn ynghylch dull cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd rheoleiddiwr a oedd yn osgoi neu'n gohirio newid angenrheidiol dim ond oherwydd y gallem ei adolygu. Byddwn yn ystyried a oes angen adolygiad mewn blwyddyn fonitro yng ngoleuni'r risgiau a grëwyd gan y newid ac i ba raddau y byddai'n ddiogel i adael eu hadolygu tan yr adolygiad cyfnodol nesaf.

- 9. Penderfynu pryd y gallai fod angen i ni gyflwyno adolygiad cyfnodol [Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno y dylai'r ffactorau hyn i gynnal adolygiad cyfnodol yn gynnar fod yn debyg i'r rhai ar gyfer cyflawni adolygiadau tu allan i'r cylch? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn drothwy**


priodol? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?]

Ymatebion i'r ymgynghoriad

9.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r ffactorau ar gyfer cyflwyno adolygiad cyfnodol fod yn debyg i'r rhai ar gyfer penderfynu cynnal adolygiadau y tu allan i'r cylch, ond gyda throthwy uwch. Pwysleisiodd yr ymatebwyr eto fod angen eglurder a thryloywder wrth wneud penderfyniadau.

9.2 Roedd un ymatebwr yn anghytuno â'n trothwy arfaethedig ('byddai angen nodi ffactorau lluosog a oedd yn mynd ar draws ystod o swyddogaethau rheoleiddio'), gan ddadlau y dylid newid hyn i 'un neu fwy o ffactorau'.

Roedd ymatebwr arall, a oedd yn cytuno â'r ffactorau'n gyffredinol, hefyd yn dadlau y dylid gostwng y trothwy gan y gallai dirywiad sylweddol mewn perfformiad mewn un swyddogaeth graidd fod yn ddangosydd o faterion ehangach. I'r gwrthwyneb, dadleuodd ymatebydd arall y dylai'r gofynion ar yr Awdurdod i ddangos bod angen cyflwyno adolygiad cyfnodol fod yn llawer mwy na'r rhai a nodir.



Ein hymateb

9.3 Gan fod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r ffactorau, gyda dau yn awgrymu bod y trothwy'n rhy uchel ac un yn awgrymu ei fod yn rhy isel, byddwn yn cynnal yr un ffactorau a throthwy. Byddwn yn sicrhau bod amddiffyn y cyhoedd a chymesuredd yn cael eu hystyried pan fyddwn yn gwneud y penderfyniadau hyn.

10. Pennu trefn adolygiadau cyfnodol rheolyddion [Cwestiwn 10: A ydych chi'n cytuno mai dyma'r ffactorau cywir ar gyfer pennu trefn y rheolyddion yn y cylch? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?]


Ymatebion i'r ymgynghoriad

10.1 Fe wnaethom nodi ffactorau yr oeddem yn bwriadu eu hystyried wrth benderfynu ar drefn rheolyddion yn y cylch adolygu perfformiad:

- Risg o berfformiad gwael, gan gynnwys peidio cyflawni Safonau
- Adolygiadau pellach diweddar wedi eu cyflawni, i amlinellu faint sydd eisoes yn hysbys a gwaith pellach sy'n debygol o fod yn angenrheidiol mewn adolygiad llawn
- Maint y rheoleiddiwr a'r adnoddau tebygol ar gyfer adolygiad cyfnodol

- Cyfnod yr adolygiad presennol ac os byddai angen ymestyn neu fyrhau hyn.

10.2 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r ffactorau a nodwyd gennym. Dadleuodd tri ymatebydd y dylid ystyried diwygio (a newidiadau mawr cysylltiedig) wrth bennu trefn rheolyddion. Nododd un o'r ymatebwyr hyn y gallai fod angen i drefn y cylch newid mewn ymateb i amserlen diwygio pob rheoleiddiwr wrth i hyn ddod i'r amlwg. Roedd ymatebion eraill yn awgrymu ffactorau ychwanegol i ni eu hystyried: risgiau diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys proffil risg y proffesiwn ac unrhyw ddigwyddiadau mawr diweddar; a chylch cynllunio strategol rheoleiddiwr a hyd yr amser ers cynnal yr adolygiad diwethaf.



- 10.3 Dadleuodd ymatebwyr hefyd y dylai risg o berfformiad gwael ac adolygiadau pellach diweddar fod yn ddangosyddion cryfach na maint ac adnoddau'r rheoleiddiwr. Roedd un ymatebwr yn pryderu y gallai rhanddeiliaid weld safle rheoleiddiwr mewn cylch fel dangosydd o'u perfformiad: ni ddylai cyfathrebiadau am drefn y clych danseilio hyder yn y rheolyddion perthnasol.
- 10.4 Codwyd sawl pwynt ynghylch i ba raddau y dylai maint y rheoleiddiwr ddylanwadu ar ei safle yn y cylch a sut y byddai hyn yn cael ei fesur (er enghraifft, yn ôl maint y gofrestr neu'r adnoddau sydd ar gael iddo). Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y dylem allu cymryd camau i ymateb i risgiau pryd bynnag y byddant yn codi, waeth beth fo'r adnoddau sydd ar gael.

Ein hymateb

- 10.5 Rydym yn cytuno bod risg yn ffactor allweddol wrth bennu trefn y rheolyddion yn y cylch, gan gynnwys y risg o berfformiad gwael. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae llawer o faterion a fydd yn dylanwadu ar y drefn yr ydym yn adolygu'r rheolyddion – gan gynnwys adolygiadau ac archwiliadau pellach diweddar, yr amserlen debygol ar gyfer unrhyw welliannau a'n hadnoddau ein hunain.
- 10.6 Rydym hefyd yn cytuno na ddylai maint rheoleiddiwr fod yn brif yrrwr ar gyfer pennu trefn rheolyddion yn y cylch. Fodd bynnag, mae angen iddo fod yn ystyriaeth o safbwynt adnoddau, gan fod rheolyddion mwy angen mwy o adnoddau adolygu perfformiad na rheolyddion llai sy'n perfformio i lefel debyg. Wrth ystyried risg fel y prif ffocws, gallwn gydbwysu'r llwyth gwaith ar draws blynyddoedd, gan ganiatáu i ni ymateb yn effeithiol i risgiau sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt godi.
- 10.7 Yn seiliedig ar yr adborth a gawsom, rydym wedi diweddarau'r ffactorau i'w hystyried wrth bennu trefn y rheolyddion yn y cylch isod. Mae hyn yn cynnwys bod diwygio rheoleiddio wedi ei gynnwys yn fwy penodol:

- Risg i ddiogelu'r cyhoedd, gyda'r Safonau presennol heb eu bodloni yn ddangosydd o'r risg honno, ond hefyd o gofio'r amserlen debygol sydd ei hangen ar gyfer gwelliannau
- Ein dealltwriaeth o pryd y gwneir newidiadau i brosesau rheolyddion fel canlyniad diwygio – mae'n debygol y bydd hyn yn fwyaf perthnasol i'r GMC yn y cylch cyntaf, a byddwn yn cadw hyn mewn cof pan fydd gennym syniad cliriach o'r newidiadau a gynllunnir ar gyfer rheolyddion eraill
- Adolygiadau ac archwiliadau pellach diweddar a gynhaliwyd, gan fod hwn yn ddangosydd o'r swm sy'n hysbys eisoes am bob rheoleiddiwr a'r gwaith pellach sy'n debygol o fod ei angen mewn adolygiad llawn
- Maint y rheoleiddiwr a'r adnoddau tebygol ar gyfer adolygiad cyfnodol, gan gofio'r angen i ledaenu'r gwaith adolygu'r 10 rheoleiddiwr ar draws cylch tair blynedd
- Cyfnod yr adolygiad presennol ac os byddai angen ymestyn neu fyrhau hyn.

11. Effaith ein cynigion [Cwestiwn 11: Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion a sefydlir yn y papur hwn yn debygol o'u cael r eich sefydliad neu ystyriaeth y dylem eu hystyried wrth asesu effaith y cynigion]

Ymatebion i'r ymgynghoriad

11.1 Sefydlodd ymatebwyr nifer o effeithiau:

- Cydnabu'r ymatebwyr mai'r bwriad yw lleihau'r baich ar reolyddion yn ystod y cylch. Fodd bynnag, cododd rhai ymatebwyr bryderon y gallai hyn gynyddu yn dibynnu ar sut mae'r broses yn gweithio'n ymarferol
- Bydd ymgysylltu cynyddol, rheolaidd â rheolyddion yn arwain at oblygiadau gweithredol ac felly mae angen amserlennu gofalus
- Gall yr effaith fod yn wahanol yn dibynnu ar adnoddau pob rheoleiddiwr
- Dylai lledaenu'r gwaith ar draws y flwyddyn helpu cysoni'r effaith ar reolyddion
- Gallai cynyddu adnoddau'r Awdurdod sydd eu hangen i reoli'r broses arwain at ffioedd uwch i'r rheolyddion, a fyddai'n cael eu trosglwyddo i gofrestryddion
- Dylai gwella ymgysylltiad rhanddeiliaid gael effaith gadarnhaol
- Mae potensial i gael effaith andwyol ar y rhai sydd wedi cofrestru ac felly ar gyrff cofrestredig os yw cylch cyfnodol yn arwain at ddirywiad mewn perfformiad rheoleiddio oherwydd goruchwyliaeth is
- Dylai adrodd yn y broses newydd fod yn debyg i'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd i alluogi rhanddeiliaid i gymharu perfformiad ar draws blynnyddoedd
- Bydd yn bwysig monitro effaith y newidiadau.

- 11.2 Yn ogystal, dywedodd rhai ymatebwyr yr hoffent fod wedi gweld asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y gwaith hwn.

Ein hymateb

- 11.3 Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu â'n hadolygiadau yn creu gwaith i reolyddion. Rydym yn bwriadu y bydd y broses newydd, yn gyffredinol, yn lleihau'r baich. Byddwn yn parhau i adolygu effaith y newidiadau ac yn ceisio adborth gan reolyddion am yr effaith gyffredinol, tra'n cael ein harwain gan risg a'r angen pennaf am ddiogelu'r cyhoedd.
- 11.4 Ein nod yw ymgymryd â'r broses newydd o fewn yr adnoddau presennol ac rydym wedi ei chynllunio ar y sail y dylai unrhyw ddull newydd fod angen llai, yn hytrach na mwy, o adnoddau.
- 11.5 Credwn fod cylch tair blynedd yn darparu dull cymesur o oruchwylio. Ein profiad ni yw ei bod hi'n anghyffredin i berfformiad ddirywio'n sylweddol dros un flwyddyn. Bydd ein hymagwedd at fonitro yn ein galluogi i nodi dirywiad difrifol mewn perfformiad a chamu i mewn yn gyflym. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu hyd y cylch.
- 11.6 Bydd ein hadroddiadau yn glir ac yn hygyrch, ac yn galluogi rhanddeiliaid i weld sut mae perfformiad y rheolyddion wedi newid rhwng blynyddoedd. Byddwn yn diweddarau fformat ein hadroddiad i gyflawni hyn.
- 11.7 Rydym, drwy gydol datblygiad ein gwaith yn y maes hwn, wedi ystyried y rhesymeg, adnoddau, cyllid a'r effeithiau ar rhanddeiliaid mewn perthynas â'r opsiynau yr ydym wedi gweithio arnynt. Rydym o'r farn bod y dull hwn yn gymesur ar gyfer diweddariad a gwelliant ar broses bresennol yn hytrach na chyflwyno proses reoleiddio/goruchwylio newydd. Byddwn yn monitro effaith cyflwyno'r dull newydd.
- 12. Asesiad cydraddoldeb [Cwestiwn 12: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?]**

Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 12.1 Sefydlodd ymatebwyr nifer o effeithiau:
- Gallai unrhyw fethiannau yn y broses i nodi materion gael effeithiau gwahaniaethol ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Er enghraifft, y rhai a orgynrychiolir mewn gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer a'r rhai yr effeithir arnynt gan gyrhaeddiad gwahaniaethol mewn addysg a hyfforddiant
 - Mae'n hanfodol sicrhau nad yw methodoleg a dull yr Awdurdod o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cyflwyno nac yn gosod rhwystrau.
- 12.2 Amlygodd ymatebwyr hefyd y dylai'r Awdurdod barhau i flaenoriaethu Safon 3 ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dylai hyn fod yn wir ar gyfer monitro yn ogystal â blynyddoedd adolygu cyfnodol i sicrhau nad oes unrhyw niwed mewn perfformiad. Bydd ymgysylltu â sefydliadau perthnasol eraill yn y maes hwn yn bwysig.

Ein hymateb

- 12.3 Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn faes ffocws i'r Awdurdod ar hyn o bryd. Rydym yn gwneud ein gwaith ein hunain i wella ein dealltwriaeth o'r maes hwn ymhellach. Bydd Safon 3 yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'r Awdurdod a byddwn yn adolygu a yw wedi'i dargedu'n briodol. Byddwn yn talu sylw i'r ystyriaethau a nodir uchod wrth benderfynu pa mor agos i'w adolygu bob blwyddyn mewn perthynas â phob rheoleiddiwr.
- 12.4 Rydym yn cydnabod y gallai methiannau yn ein trosolwg arwain at effeithiau gwahaniaethol pellach ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Disgwyliwn, trwy wella sut rydym yn casglu a dadansoddi gwybodaeth, gan gynnwys mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r rheolyddion, y byddwn yn lleihau'r risg y bydd hyn yn digwydd. Fel y dywedasom yn ein hymateb i gwestiwn 11, nid ydym yn disgwyl y bydd ein harolygiaeth yn lleihau drwy ddull cylchol.
- 12.5 Wrth ddatblygu ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid, byddwn yn sicrhau nad yw ein prosesau yn cyfyngu ar allu unigolion i ymgysylltu â ni.
- 12.6 Byddwn yn cyhoeddi ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ac yn parhau i adolygu effaith ein dull newydd ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

Y camau nesaf

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi ein cynigion ar gyfer dull newydd o adolygu perfformiad.

Rydym yn cyflwyno'r broses newydd ar gyfer cyfnod adolygu perfformiad 2021/22 ac rydym eisoes wedi rhoi rhai newidiadau ar waith yn dilyn ein hymgyngoriad blaenorol a fydd yn cynorthwyo'r pontio i'r broses newydd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad cyntaf erbyn diwedd mis Mehefin 2022. Rydym wedi gweithio gyda rheolyddion i ddiweddarau eu cylchoedd adolygu a llywio trefn y rheolyddion yn y cylch cyntaf o adolygiadau cyfnodol. Mae hwn i'w weld yn Atodiad 1.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith yn dilyn ein hymgyngoriad blaenorol fel rhan o gyflwyniad y broses newydd:

- ▶ Diwygio ein prosesau er mwyn i ni wneud mwy o waith yn ystod y flwyddyn ac yn ymwneud yn fwy rheolaidd â rheolyddion, gyda'r nod o gyhoeddi ein hadroddiadau o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod yr ydym yn adrodd arno
- ▶ Ymgysylltu ag ystod ehangach o rhanddeiliaid
- ▶ Gwneud ein hadroddiadau yn gliriach, yn fwy cryno ac yn fwy defnyddiol wrth hyrwyddo gwelliannau mewn rheoleiddio
- ▶ Datblygu ein dealltwriaeth o risg gan gynnwys risgiau penodol i broffesiwn a defnyddio hyn i lywio cwmpas ein hadolygiadau.

Y broses newydd

Yn y broses newydd, byddwn yn cynnal adolygiad cyfnodol o bob rheoleiddiwr bob tair blynedd. Yn y cyfamser, byddwn yn monitro eu perfformiad a gallwn ofyn am ragor o wybodaeth neu gyflwyno adolygiad cyfnodol os bydd angen. Yn y blynyddoedd adolygu cyfnodol a monitro, byddwn yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth trwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau, a chyhoeddi adroddiadau, yn gynt nag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd.

Mewn adolygiadau cyfnodol, yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn, bydd y tîm adolygu perfformiad yn cynnal dadansoddiad o'r wybodaeth sydd gennym, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth a chwynion a dderbyniwn, a chanlyniadau ein gwaith Adran 29. Byddwn yn ystyried y penderfyniad a wnaethpwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, gwybodaeth a rennir gan y rheoleiddiwr³ ac adborth gan randdeiliaid. Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio adborth o'r fath.

Yna byddwn yn nodi lle mae angen rhagor o wybodaeth arnom a sut y dylem wneud hynny, a bydd hyn yn pennu cwmpas ein hadolygiad. Disgwylwn gyflawni'r rhan fwyaf o waith manwl yr adolygiad cyfnodol, gan gynnwys unrhyw archwiliad a/neu gwestiynau ffurfiol, yn ystod dau chwarter canol y flwyddyn.

Bydd y tîm wedyn yn dadansoddi'r wybodaeth lawn, gan nodi argymhelliad i'n panel gwneud penderfyniadau ar neu o gwmpas mis 10 y cyfnod adolygu. Rydym am i'r broses newydd fod yn fwy tryloyw, felly byddwn yn rhannu'r argymhelliad hwnnw gyda'r rheoleiddiwr cyn i'r panel gyfarfod ac yn rhoi cyfle i'r rheoleiddiwr wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y dadansoddiad. Bydd y panel yn gwneud penderfyniad dros dro yn erbyn yr holl Safonau ar yr adeg hon, a fydd yn amodol ar asesiad o berfformiad yn ystod wythnosau olaf y cyfnod. Bydd y panel yn cael ei ddiweddarau ar ddiwedd y cyfnod adolygu perfformiad a bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei gadarnhau. Yna byddwn yn cynhyrchu ein hadroddiad, gan ddisgwyl y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod. Bydd y panel hefyd yn rhoi cyfarwyddyd ar unrhyw faterion y dylid eu hadolygu'n barhaus yn ystod y cyfnod monitro.

Disgwylwn mewn rhaid achosion na fydd adolygiad cyfnodol yn llawer mwy dwys nag adolygiad monitro; os oes gennym bryderon neu feysydd ble byddwn angen rhagor o wybodaeth, efallai na fydd angen i ni gyflawni unrhyw ymholiadau arwyddocaol.

Byddwn yn defnyddio ein canfyddiadau i lywio ein gwaith yn y dyfodol mewn perthynas â'r rheoleiddiwr hwnnw, gan gynnwys unrhyw feysydd ffocws ar gyfer y blynyddoedd monitro yn dilyn yr adolygiad cyfnodol.

Mewn blynyddoedd monitro, bydd y broses gyffredinol yn debyg. Byddwn yn parhau i fonitro'r un ffynonellau gwybodaeth ag mewn adolygiad cyfnodol. Fodd bynnag, yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adolygiad cyfnodol a'r hyn y mae ein gwaith monitro yn ei ddweud wrthym am risg, mae'n debygol y bydd hwn yn adolygiad llai dwys nag ar gyfer adolygiad cyfnodol. Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar Safonau nas cyrhaeddwyd yn flynyddol hyd nes y byddwn yn fodlon bod y Safon wedi'i bodloni. Byddwn yn ystyried a yw'r dystiolaeth sydd gennym yn dangos bod angen inni

³ Nodwedd o'r broses newydd fydd cyfarfodydd mwy rheolaidd gyda'r rheolyddion, a byddwn yn anelu at ddatrys ymholiadau wrth iddynt godi drwy gydol y flwyddyn.

wneud rhagor o waith i asesu perfformiad, gan asesu hyn yn erbyn y ffactorau y byddwn yn eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Fel gyda'r broses adolygu cyfnodol, bydd y llwyth gwaith yn cael ei wasgaru ar draws y flwyddyn, gyda dadansoddiad yn cael ei rannu gyda'r panel gwneud penderfyniadau (a'r rheoleiddiwr) tua diwedd y flwyddyn, gyda phenderfyniad terfynol a'r adroddiad i ddilyn. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar unrhyw feysydd o newid mewn perfformiad yn ystod y flwyddyn fonitro.

Atodiad 1: Trefn y rheolyddion yn ystod y cylch tair blynedd

| Rheoleiddiwr | Blwyddyn 1: 21/22 | | Blwyddyn 2: 22/23 | | Blwyddyn 3: 23/24 | |
|--------------|---------------------------|-----------------|---------------------------|----------------|---------------------------|----------------|
| GCC | Monitro | Ebr 21-Meh 22 | Adolygiad cyfnodol | Gor 22-Meh 23 | Monitro | Gor 23-Meh 24 |
| GDC | Adolygiad cyfnodol | Gor 21-Medi 22 | Monitro | Hyd 22-Medi 23 | Monitro | Hyd 23-Medi 24 |
| GMC | Monitro | Med 21-Medi 22 | Monitro | Hyd 22-Medi 23 | Adolygiad cyfnodol | Hyd 23-Medi 24 |
| GOC | Adolygiad cyfnodol | Hyd 21-Rhag 22 | Monitro | Ion 23-Rhag 23 | Monitro | Ion 24-Rhag 24 |
| GOsC | Monitro | Ion 21-Maw 22 | Monitro | Ebr 22-Maw 23 | Adolygiad cyfnodol | Ebr 23-Maw 24 |
| GPhC | Monitro | Maw 21-Meh 22 | Adolygiad cyfnodol | Gor 22-Meh 23 | Monitro | Gor 23-Meh 24 |
| HCPC | Monitro | Ion 21-Maw 22 | Adolygiad cyfnodol | Ebr 22-Maw 23 | Monitro | Ebr 23-Maw 24 |
| NMC | Monitro | Ebr 21-Meh 22 | Monitro | Gor 22-Meh 23 | Adolygiad cyfnodol | Gor 23-Meh 24 |
| PSNI | Monitro | Tach 21-Rhag 22 | Monitro | Ion 23-Rhag 23 | Adolygiad cyfnodol | Ion 24-Rhag 24 |
| SWE | Monitro | Rhag 21-Rhag 22 | Adolygiad cyfnodol | Ion 23-Rhag 23 | Monitro | Ion 24-Rhag 24 |